# Gweithrediadau Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru 2012 - Bioamrywiaeth ac Ecosystemau yng Nghymru - llunio gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Cynhaliwyd pumed Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd ar 12 a 13 Medi 2012. Agorwyd y gynhadledd gan Morgan Parry, Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac estynnodd groeso i'r cynadleddwyr.

Richard Wakeford, Ymgynghorydd Strategaeth Wledig a Joe Zammit-Lucia oedd y prif siaradwyr a rhoddodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy anerchiad ar ran y Llywodraeth. Roedd dros gant o gynrychiolwyr yn bresennol o ystod eang o sefydliadau.



**Trafodaeth mewn panel. O'r chwith i'r dde - Keith Vincent, John Griffiths AC, Richard Wakeford, Morgan Parry**

## Diwrnod 1

**Cadeirydd:** Morgan Parry, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**[Prif Sgwrs: Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol: ble ydych chi'n meddwl ydych chi'n mynd?]** **Richard Wakeford, Ymgynghorydd Strategaeth Wledig**

Mae llwyddo i sicrhau bioamrywiaeth a thyfu adnoddau naturiol yn dibynnu ar wybod yn glir yr hyn y ceisir ei gyflawni a chymryd camau cydgysylltiedig mewn partneriaeth. Mae nodi heriau ynglŷn â sut bydd tirweddau'n edrych yn y dyfodol a sicrhau bod natur yn cael ei adfer yn galw am newid patrwm.

Gosodwyd her i'r cynadleddwyr asesu a yw prosesau beunyddiol yn allweddol i wireddu'r 'weledigaeth fawr'. Mae angen newid o'r fodel bresennol o arweinyddiaeth wleidyddol, sy'n cael ei harwain gan farn gyhoeddus, i system lle mae gwleidyddion yn arweinwyr yn hytrach na dilynwyr.

Mae gan Gymru'r potensial i wneud pethau'n wahanol a dylai'r Un Corff geisio integreiddio bioamrywiaeth yn briodol trwy reoli tir a dŵr mewn ffordd integredig sydd hefyd yn sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd.

Mae syniadau Richard sydd wedi'u cynnwys yn y sgwrs yn cael eu crynhoi yn y nodyn briffio 'Gweledigaeth, canlyniadau a thorri drwodd strategol?' Yma mae Richard Wakeford yn dadlau am fwy o feddwl strategol mewn cynllunio amgylcheddol, canolbwynto ar ganlyniadau a chwilio am strategaethau torri drwodd.

Gweledigaeth, canlyniadau a thorri drwodd strategol?

## Anerchiad gan y Gweinidog – John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Croesawodd y Gweinidog bawb i gynhadledd flynyddol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a phwysleisiodd bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, sy'n hollbwysig er mwyn cyflawni. Hefyd tynnwyd sylw at yr angen i hybu safleoedd dynodedig yn ogystal â'u cynnal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tuag at ddatblygu strategaeth fioamrywiaeth UE ac anogwyd y cynadleddwyr i fynegi eu barn yng ngweithdy'r pnawn: Cyflawni bioamrywiaeth yng Nghymru: ymateb i Fframwaith Gweithredu Cyffredin Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE.

Mae'n bosibl bod angen datblygu cynllun gweithredu ar y ffordd y mae Cymru'n cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth, gan arwain at ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru. Bydd cyflwr hirdymor ecosystemau a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu'n ganolog i'r penderfyniadau a wneir gan yr Un Corff.

Gwneir datganiad yn yr hydref ynglŷn â datblygu Cynllunio Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn ogystal ag amserlen ddatblygu yn cynnwys sut bydd y Mesur Amgylchedd yn cael ei gyflawni.

Gyda chymorth y Gronfa Cydnerthedd, Amrywiaeth a Chydymffurfiaeth Ecosystemau 2012/13 ariannwyd 33 o brosiectau a bydd eu hallbynnau'n cael eu rhannu unwaith y bydd y gwaith wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, nid oedd y Gweinidog yn gallu cadarnhau a fydd arian ar gael yn y dyfodol ai peidio, er iddo annog pawb i ddechrau meddwl am brosiectau ar gyfer y dyfodol os bydd arian ar gael.

Yn olaf, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r cynadleddwyr am gynllun gweithredu oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer pryfed peillio ac estynnwyd gwahoddiad i'r rhai oedd â diddordeb fynychu gweithdy gan Lywodraeth Cymru a fydd yn arwain at ddatblygu argymhellion y gweinidog, gan lansio'r rhaglen yn swyddogol yng Ngwanwyn 2013.

**Prosiect diwygio deddf bywyd gwyllt Comisiwn y Gyfraith - Dr Keith Vincent, Comisiwn y Gyfraith**

Yn ddiweddar lansiodd Comisiwn y Gyfraith bapur ymgynghori ar 14 Awst 2012 yn manylu ynglŷn â newidiadau arfaethedig dros dro i'r gyfraith ar rywogaethau bywyd gwyllt. Byddai eu cynigion dros dro'n cynnwys newid sylfaenol i'r gyfraith bresennol yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, yn ogystal â Deddfau sy'n benodol i rywogaethau - megis Deddf Gwarchod Moch Daear 1992. Nod y newidiadau yw creu cyfraith bywyd gwyllt o fewn un statud.

**Sesiwn Holi ac Ateb. John Griffiths AC, Richard Wakeford, Keith Vincent**

C) *Steve Bolchover, Gwirfoddolwr* – Ydi Arolwg Comisiwn y Gyfraith yn atgyfnerthu neu'n symleiddio'r gyfraith bresennol neu ydi o'n canolbwyntio ar gyflwyno mesurau newydd neu ymestyn mesurau gwarchod presennol?

A) *Keith Vincent* - Nod yr arolwg yw trawsosod gofynion Ewropeaidd yn gywir yn hytrach na diwygio'r digyfraith. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar symleiddio a rhoi trefn ar ddeddfwriaethau presennol fel y gall eraill gyflawni eu dyletswyddau'n fwy effeithiol. Mae'r prosiect hefyd yn gallu ychwanegu atodlenni newydd e.e. cyflwyno tymhorau cau ar gyfer rhai rhywogaethau a gall ychwanegu neu dynnu rhywogaethau. Serch hynny, dylid cofio mai dim ond argymhellion yw'r newidiadau a awgrymwyd.

C)*James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru* – Gan ystyried yr argymhelliad i newid patrwm o ran barn gyhoeddus, sut fyddai Llywodraeth Cymru'n cyflawni hyn ?
A)*John Griffiths AC* - Nid gwaith hawdd yw mynd i'r afael â'r her hon. Dylid annog y cyhoedd i ystyried materion amgylcheddol ehangach, fel y dull a gyflwynwyd gyda'r ardoll ar fagiau plastig yng Nghymru, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi arwain at newid mewn ymddygiad. Croesewir unrhyw syniadau. Dylid symud tuag at agenda amgylcheddol trefol cadarn ac ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd mewn ardaloedd trefol. Mae cyfuno nifer o gamau'n gallu arwain at newid mewn ymddygiad. Hefyd mae angen cynlluniau i hybu prosiectau ynni adnewyddadwy ac ati.
A) *Richard Wakeford* - Mae Cymru'n awyddus i fod yn wahanol i'r DU (San Steffan) ond ar brydiau mae uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol yn gallu bod yn drech na'r gallu i gyflawni. Dylid canmol ymrwymiad Cymru i ddatblygu cynaliadwy, ond mae'n hollbwysig bod adnoddau ar gael er mwyn cyflawni. Mae angen i ni fod yn realistig ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl ei gyflawni. Mae cyfathrebu rhwng elusennau amgylcheddol â'u haelodaeth eang yn gallu helpu i newid ymddygiad ac arwain at newid agwedd Gweinidogion. Mae'r Llywodraeth yn barod i newid ei ffordd o feddwl ond dylai pob un ohonom yn gyfrifol am newid.

C) *Martyn Evans, Grŵp Morol Cymru/Cyngor Sir Fynwy* – Mae'r Ddeddf Chwyn Niweidiol yn cynnwys planhigion Estron Goresgynnol sy'n ymledu a dylai arolwg Comisiwn y Gyfraith gadarnhau swyddogaeth awdurdodau lleol ar gyfer delio â'r rhain. Pa mor weithgar ddylai'r Awdurdodau Lleol fod wrth ddelio â gorfodaeth ar dir preifat a chyhoeddus?
A) *Keith Vincent* - Mae'r Ddeddf Chwyn Niweidiol o fewn cwmpas y prosiect, serch hynny, nid swyddogaeth y prosiect yw dweud wrth Awdurdodau Lleol sut y dylid neilltuo adnoddau.
C) *Sorrell Jones, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent* - Rhoddwyd sylw yn y wasg yn ddiweddar i'r ffaith y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i bolisïau cynllunio yng Nghymru er mwyn annog twf economaidd. Sut mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o safbwynt datblygu cynaliadwy?
A) *John Griffiths AC* - Nod Llywodraeth Cymru yw creu system amserol ac effeithiol, yn hytrach na newid pa mor gadarn yw elfennau unigol o ddatblygu cynaliadwy. Y brif ystyriaeth yw'r amser y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau a pha mor hawdd yw'r ddeddfwriaeth i'w defnyddio. Dylid gwneud penderfyniadau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. Gwnaed arolwg cyffredinol o'r system gynllunio yn cynnwys sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Annibynnol. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno'r hydref hwn. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ym mhob un o bolisïau LlC ac nid yw ymrwymiad LlC i ddatblygu cynaliadwy yn lleihau.

C) *Cwestiwn gan un o'r cynadleddwyr*- ydi'r gweithwyr cynllunio proffesiynol yn chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddatblygu rhaglen Cymru Fyw ac ystyried y Dull Ecosystem?
A) *John Griffiths AC* -Mae gwaith ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i gysylltu â phob adran berthnasol, yn cynnwys cynllunio. Fodd bynnag, mae her yn ein hwynebu i gryfhau gwaith trawsbynciol, e.e. sut fydd Cynllunio Adnoddau Naturiol yn rhyngweithio â Chynllunio.

A) *Richard Wakeford*- Nid yw dibynnu ar ddogfennau canllaw cynllunio o fudd. Wrth ddatblygu cynlluniau, dylid meddwl am weledigaethau ar gyfer ardaloedd lleol gan ystyried ffyrdd newydd o weithio sy'n rhoi sylw i'r mathau hyn o faterion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy a phenderfyniadau cynllunio. Mae angen i ni sicrhau bod twf realistig wedi ei dargedu ar y lleoedd iawn. Mae angen dibynnu ar waith Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddatblygu cynlluniau sy'n addas yn lleol.

C) *Laura Palmer, Cyngor Dinas Caerdydd* – All y Gweinidog egluro sylwadau a wnaed yn flaenorol? A fydd rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy neu ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy lle y bo'n briodol?
A) *John Griffiths AC* - Yn y pen draw Awdurdodau Cynllunio Lleol fydd yn gwneud y penderfyniadau a bydd y rhain yn parhau i gael eu gweithredu'n ôl yr arfer. Mae angen cydbwysedd priodol.

C) *John Clarke, RSPB Cymru* – All Richard gynnig unrhyw argymhellion ar sail y broses yn yr Alban a allai fod yn berthnasol i Gymru?
A) *Richard Wakeford* – Mae annog cyrff statudol i weithio gyda'i gilydd yn hollbwysig. Gall hyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon, gan roi cyfle i unigolion siarad ag awdurdod ar faterion mewn unrhyw ardal. Mae cydweithio hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu partneriaethau newydd ac arloesol. Mae'n haws cyflawni'r math hwn o weithio mewn gwlad fach ac mae gan Gymru gyfle i osod esiampl.

C) *Valerie Forsyth, Cymdeithas Gwenynwyr Cymru* - Mae Clymog yr Himalaya a Chlymog Japan yn hanfodol i wenyn a phryfed peillio eraill. Mae angen cadw ardaloedd bach o'r rhywogaethau hyn er budd pryfed peillio.
A) *John Griffiths AM* - Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Pryfed Peillio bydd angen ystyried y materion hyn a dylai gael ei lywio gan wahanol farn a thystiolaeth. Mae her ddifrifol i'r ddwy rywogaeth a bydd angen rhoi sylw i'r rhain. Yr hyn sy'n allweddol yw eu hatal rhag sefydlu yn y lle cyntaf.

A) *James Burn, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt* – Mae angen planhigion defnyddiol ar gyfer pryfed peillio; rhywogaethau brodorol.
C) *Mike Scott-Archer* – Rhaid i'r Mesur Treftadaeth gael ei integreiddio â'r Dull Ecosystem. Mae mynediad at ein diddordeb treftadaeth yn bwysig iawn a dylid ei gadw mewn cof.
A) *Richard Wakeford* - Rwy'n cytuno, er enghraifft, mae rheilffordd Eryri, sy'n atyniad i dwristiaid, bellach yn mynd ar hyd cledrau'r hen reilffordd. Mae'r rhwydwaith llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn bwysig iawn i sicrhau bod ein treftadaeth ddiwylliannol yn hygyrch.
C) *Morgan Parry* - Rydym yn defnyddio'r term 'defnyddio'n synhwyrol' mewn deddfwriaeth rhywogaethau - gwarchod rhywogaethau oherwydd eu gwerth cynhenid. Oes yna le i warchod rhywogaethau er eu mwyn eu hunain yn hytrach nag ar gyfer defnydd dynol?
A) *Keith Vincent* –Mae yna le i warchod rhywogaethau am resymau lles; yn yr un modd mae yna rywogaethau efallai nad ydym ni eisiau eu gwarchod e.e. niferoedd ffesantod, neu fe fyddai gennym ormod ohonynt.

C) *Chris Roberts, Cyngor Sir Torfaen* - Byddai Cynllun Datblygu Torfaen wedi elwa o gael cyngor gan CCGC a'r Llywodraeth i gynghori ynghylch bioamrywiaeth a'r Dull Ecosystem. Mae gennym un swyddog sy'n delio â'r holl faterion amgylcheddol o ailgylchu i dipio anghyfreithlon. Mae angen cymorth i ysgogi newid a sicrhau Dull Ecosystem. Mae risg

ynghlwm â gwneud newidiadau nawr. Hefyd nid oes arian ar gael i weithredu'r camau bioamrywiaeth sydd eu hangen.
A) *John Griffiths* – Mae gan Awdurdodau Lleol eu trefn etholiadol eu hunain ac maen nhw'n asiantaethau cyflawni allweddol. Mae agenda Simpson yn ceisio sicrhau cydweithio o ran arfer gorau, adnoddau ac arbenigedd. Mae swyddogion Cynllunio Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol gan gynnwys CDLl. Mae'r Dull Ecosystem yn gysyniad newydd a bydd yn rhaid wrth ffyrdd newydd o weithio. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos ac egluro'r hyn sydd ei angen. Bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio ar systemau cyflawni.
A) *Richard Wakeford* – Mae angen i ni weithio gyda dulliau datblygu; gan addasu dulliau presennol nad ydynt bob amser yn gweithio.

## Cynllunio Adnoddau Amgylchedd Naturiol-Russell De'ath, Rhaglen Cymru Fyw

Yn y cyflwyniad nodwyd canlyniad yr ymgynghoriad diweddar ar bapur gwrdd Cynnal Cymru Fyw, yn arbennig o safbwynt y cynigion ar gyfer cynlluniau rheoli'r amgylchedd naturiol.

Roedd y papur yn gofyn am sylwadau ar ddatblygu cynlluniau rheoli adnoddau lleol integredig i ddylanwadu ar y modd y gwneir defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol cyffredinol. Y bwriad yw darparu fframwaith cyffredin y gall rheolyddion a rheolwyr amgylcheddol ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau.

Roedd cwestiwn arall yn yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch y cwmpas ar gyfer un fframwaith gofodol ar gyfer cynllunio adnoddau naturiol yng Nghymru. Fel y dywedwyd yn y ddogfen, dyma rai defnyddiau posibl ar gyfer 'cynllun adnoddau naturiol': cyfrannu at gynlluniau isadeiledd cenedlaethol, darparu fframwaith ar gyfer buddsoddi mewn gwelliannau amgylcheddol cadarnhaol; nodi prif gyfyngiadau amgylcheddol y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn cael cyfleoedd cymdeithasol-economaidd, a chreu sail gadarn i ddull wedi'i reoleiddio ar gyfer camau lliniaru priodol.

Roedd y cyflwyniad yn crynhoi sylwadau'r ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad, ac yn amlinellu camau nesaf y Llywodraeth o ran datblygu opsiynau polisi i fynd â'r ystyriaethau hyn rhagddynt.

C) *Joe Zammit-Lucia* – Sut ydych chi'n ymgysylltu â'r rhanddeiliad/y cyhoedd ehangach?
A) *Russell De'ath* - Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid, er bod yn rhaid cydnabod bod rhai negeseuon yn rhy gymhleth ac nad ydynt

o bosibl yn briodol i'r cyhoedd. Mae Tîm Cymru Fyw wedi bod yn gweithio gyda'r bobl a'r tîm ymgysylltu yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

C) *James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru* – beth fydd y treialon hyn yn ei brofi?
A) *Russell De'ath* - Mae'n dal angen cytuno ynghylch manylion y treialon, ond maen nhw'n debygol o gynnwys manteision cymunedol ac ati.

C) *Celia Thomas, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro* – Wrth ddatblygu rhaglen Cymru Fyw mae angen ystyried tir amaethyddol, sy'n cyfateb i tua 80% o gyfanswm màs tir yng Nghymru.
A) *Russell De'ath* – Mae tîm Cymru Fyw'n dechrau trafod gydag adrannau eraill LlC, yn cynnwys amaethyddiaeth.

**Amrywiaeth yn Nyfroedd Ucheldir Cymru ar gyfer Cynaliadwyedd y Gwasanaeth Ecosystem- rôl bioamrywiaeth o ran cynnal a gwella gwasanaethau ecosystem: - Dr Isabelle Durance, Sefydliad Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Caerdydd**

Ymchwilio i'r cysylltiad rhwng bioamrywiaeth, swyddogaeth ecolegol a gwasanaethau ecosystem afonydd. Mae consensws cynyddol bod gwerthfawrogiad amhriodol o wasanaethau ecosystem y byd wedi arwain at gamgymeriadau eang o ran rheolaeth amgylcheddol ynghyd ag anfanteision cymdeithasol cysylltiedig. Mae ecosystemau dŵr croyw'n enghraifft amlwg: pan maen nhw'n cael eu rheoli'n briodol, maen nhw'n darparu prif wasanaethau fel cynhyrchu pysgod, cyflenwi dŵr, cludo maeth, manteision iechyd a hamdden. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn y fantol oherwydd mai prin y cânt eu cydnabod mewn gweithgareddau sianel, gorlifdir a dalgylch. Bydd pwysau ar wasanaethau ecosystem afonydd yn cynyddu yn y dyfodol wrth i ddefnydd tir ddwysau, gofynion dŵr gynyddu a mwy o newid yn yr hinsawdd.

Mae rheoli gwasanaethau ecosystem afonydd mewn ffordd gynaliadwy'n dibynnu ar ddeall y prosesau y maen nhw'n seiliedig arnynt. Yn benodol, mae angen mesur sut mae gwasanaethau'n dibynnu ar organebau afonydd a swyddogaethau ecolegol. Yn y cyflwyniad hwn, rwy'n disgrifio prif brosiect wedi'i ariannu gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) sy'n ceisio delio â'r angen hwn. Rhaglen ymchwil traws ddisgyblaethol gwerth £3 miliwn yw DURESS - Amrywiaeth Afonydd Ucheldir ar gyfer Cynaliadwyedd Gwasanaethau Ecosystem - sy'n canolbwyntio ar bedwar gwasanaeth ecosystem afonydd sy'n ymwneud yn benodol â bioamrywiaeth: rheoleiddio ansawdd dŵr; dadelfennu; pysgodfeydd a physgota hamdden; a gwerth diwylliannol adar afonydd.

Gan ddefnyddio microbau afonydd, infertebratau, pysgod ac adar afonydd ar bob lefel o enynnau i weoedd bwydydd, rydym yn profi'r rhagdybiaeth fod: "Bioamrywiaeth yn ganolog i sicrhau gwasanaethau ecosystem afonydd ucheldir sy'n gynaliadwy o ystyried y newidiadau mewn defnydd tir a'r hinsawdd". Rydym yn ceisio asesu'n feintiol i) y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a darparu gwasanaeth; ii) sut mae bioamrywiaeth afonydd yn effeithio ar ba mor gydnerth yw'r gwasanaeth ecosystem dros amser; iii) diffinio sut mae newidiadau mewn dalgylchoedd a hinsawdd yn effeithio ar wasanaethau gan fiota afonydd er mwyn cyfrannu at well rheolaeth. Ar sail graddfeydd gofodol yn amrywio o ddalgylchoedd arbrofol i ranbarthau cyfan, a graddfeydd amserol o ddwywaith y flwyddyn i ryng-ddegawdol, mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ucheldiroedd Cymru fel rhanbarth Ewropeaidd sydd wedi ei ddiffinio'n dda, gyda digon o ddata a nifer fawr o afonydd.

**Gweithio trawsffiniol ac mewn partneriaeth i adfer cyforgors Gwarchodfa Natur Genedlaethol Fenns, Whixall & Bettisfield Mosses - Dr Joan Daniels, Natural England**

Mae SoDdGA 'Fenn's, Whixall & Bettisfield Mosses' yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Hwn yw'r 3ydd cyforgors fwyaf ym Mhrydain ac mae'n mesur 948 hectar. Yn ystod y 21ain mlynedd diwethaf, mae gwaith trawsffiniol a phartneriaethau wedi bod yn hanfodol i'r prosiect llwyddiannus hwn ar raddfa eang i adfer y GNG 670 hectar sydd yng nghanol y gors hon, ardal y bu bron iddi â chael ei difrodi gan beiriannau a dulliau masnachol dwys o dorri mawn. Mae partneriaethau wedi bod yn hollbwysig yn ystod phob cam - o gaffael, pennu technegau rheoli, cynllunio, cyfiawnhau a monitro'r broses o adfer y fignen a'r mawn, cyfoethogi bioamrywiaeth corsydd a diogelu ein hinsawdd ar gyfer y dyfodol. Mae partneriaethau hefyd wedi bod yn hollbwysig i hybu'r broses o adfer y fignen a chynnig rhesymau dros beidio â defnyddio mawn i'r cyhoedd.

**Sesiynau Bocs Sebon: Pob Plentyn yn yr Awyr Agored Cymru- Jon Gruffydd, Partnership Dysgu yn y Gwir Fyd Cymru**

Ar 22 Mai 2012 lansiodd RSPB Cymru adroddiad dwyieithog dan y teitl Pob Plentyn yn yr Awyr Agored. Mae'r adroddiad hwn wedi dwyn ynghyd lenyddiaeth amrywiol ac ymchwil o adroddiadau arolygiaeth ysgolion i'r manteision amrywiol i blant o ganlyniad i ddod i gysylltiad â natur. Cyflwynir hyn ynghyd â thystiolaeth o'r manteision i'r amgylchedd y daw

plant i gysylltiad ag ef, y ffaith bod plant yn cael llai o brofiadau o'r fath (Difodiant Profiad ac anhwylder diffyg ymwneud â byd natur), ac ymchwil gan Ipsos MORI, a gomisiynwyd gan y RSPB i farn y cyhoedd ar y materion hyn.

Mae'r adroddiad yn crynhoi pum prif faes lle mae RSPB Cymru'n credu y dylai'r llywodraeth gymryd camau. Mae'r rhain yn gysylltiedig ag: ariannu a chanllawiau, y proffesiwn dysgu, gwerth addysg yn yr awyr agored, arolygu ysgolion a mynediad at fannau gwyrdd.

## DIWRNOD 2

**Cadeirydd:** Matthew Cuinn, Cyfarwyddwr, yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru/ Arweinydd Rhaglen Cymru Fyw

### Iechyd Coedwigoedd - goblygiadau ac ymatebion i'r achosion o'r pathogen (Phytophthora ramorum) yng Nghymru Forest Research/Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae achosion o Phytophthora ramorum ar goed Larwydd Japan wedi golygu bod ardaloedd mawr o goedwigoedd yn Ne Cymru wedi cael eu torri i lawr. Bydd y rhesymau am yr ymateb hwn yn cael eu hegluro, byddwn yn trafod pa mor effeithiol fu hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ledaeniad y pathogen yng Nghymru.

C)*David Jenkins, Coed Cymru* - Oes angen hyfforddi grŵp ehangach o unigolion i adnabod Phytophthora?
A) *Owen Hoddy* – Mae'n bosibl y bydd angen gwneud hynny, ac mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n fodlon rhoi cyngor pellach neu sgwrsio gyda grwpiau a sefydliadau os bydd angen. Cysylltwch ag Owen Hoddy i gael mwy o wybodaeth - owen.hoddy@forestry.gsi.gov.uk
C) *Alison Heal, Cyngor Sir Ceredigion* – A ddylid symud tuag at dorri coed i lawr er mwyn atal y pathogen yn hytrach nag ymateb i'r broblem ar ôl i'r coed gael eu heintio?
A) *Owen Hoddy* - Mae'n bosibl na fyddai'n addas eu torri er mwyn atal y pathogen gan ei fod yn cael ei gludo mewn amryw o ffyrdd (adar, aer, hamdden ac ati). Hefyd nid oes nifer digonol o gontractwyr ar gael i wneud y gwaith hwn.

C) *Andrea Rowe, Cyngor Sir Bro Morgannwg* – Oes yna unrhyw dystiolaeth pa mor hir mae coed yn dal i gynhyrchu sborau ar ôl eu torri?
A) *Owen Hoddy* - Mae corff cynyddol o dystiolaeth am y pwnc hwn ac mae nifer o bapurau ar gael ar-lein. Cysylltwch ag Owen Hoddy i gael mwy o wybodaeth - owen.hoddy@forestry.gsi.gov.uk

C) *Alison Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili* – A oes ymchwil wedi ei wneud ar lus fel planhigyn lletyol?

A) *Kevin Issard, FERA* - Mae'r ymchwil hwn ar y gweill ar hyn o bryd ac mae FERA yn disgwyl y canlyniadau.

## Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth forol yng Nghymru: - Dr Catherine Duigan, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Grŵp Ecosystemau Morol a Dŵr Croyw (CCGC)

Caiff ei hybu'n eang fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Yn yr un modd, fel corff amgylcheddol a noddir gan y Cynulliad, mae angen tystiolaeth ar Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i gefnogi ei waith. Mae CCGC yn benodol yn defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael fel sail i weithredu bioamrywiaeth, rheoli'r amgylchedd, dewis safleoedd, a rhoi cyngor ynglŷn â pholisïau.

Bydd y cyflwyniad hwn yn ystyried beth yw ystyr tystiolaeth mewn cyd-destun amgylcheddol, a bydd yn egluro sut mae CCGC wedi ei chasglu ar wahanol raddfeydd a'i defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd yn amgylchedd morol Cymru. Casglwyd llawer o'r dystiolaeth hon mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau, prifysgolion ymgynghoriaethau a dinasyddion sy'n wyddonwyr. Rhoddir pwyslais arbennig ar yr ymdrechion a wnaed gan CCGC i drefnu a chyflwyno ei ddata ar ffurf ofodol. Dangosir hefyd bod gan Gymru waddol pwysig iawn o setiau data monitro hirdymor.

Trafodir cyflwr yr asesiadau amgylcheddol yng nghyd-destun creu un corff newydd, adroddiadau diweddar DU (*Charting Progress II: The State of the UK's Seas*; Asesiad Cenedlaethol o Ecosystem y DU) a heriau yn y dyfodol (Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol). Cydnabyddir hefyd bod bylchau allweddol o hyd yn ein gwybodaeth am amgylchedd morol Cymru ac awgrymir anghenion y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddynt o ran ymchwil.

*Graham Oliver, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru* - Mae angen tystiolaeth ynglŷn â sut y dehonglir newidiadau yn yr amgylchedd morol ac mae angen mwy o adnoddau o ran amser ac arian ar gyfer yr amgylchedd morol.

C) *John Clarke, RSPB Cymru* – Beth yw'r prif ffactorau ysgogi ar gyfer casglu tystiolaeth a sut ydych chi'n blaenoriaethu pa fylchau y dylid eu llenwi?
A) *Catherine Duigan* - Y dull gorau yw blaenoriaethu meysydd lle mae cryn waith wedi ei wneud eisoes. Dylid hefyd cael mynediad at ddata o ffynonellau eraill fel diwydiant oherwydd gallai hyn fod o fudd mawr.

**Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol- myfyrio ar fioamrywiaeth lleol, myfyrio ar werthoedd lleol:-Richard Wistow, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Yn y gorffennol, pan oedd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn bwnc llosg am y tro cyntaf, roedd y nodiadau canllaw 'sut i wneud' yn pwysleisio ac ail-bwysleisio pwysigrwydd yr elfen 'leol'. Roedd lleol yn allweddol: roedd o'r gwaelod i fyny yn dda: roedd LA21 a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn anwahanadwy. Ar y pryd codwyd y cwestiwn beth oedd ystyr 'lleol'? Felly beth ydym ni wedi ei gyflawni'n 'lleol' mewn gwirionedd? Beth yw llwyddiant pennaf Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol o safbwynt yr elfen leol?

Mae Rhondda Cynon Taf yng nghanol Cymoedd De Cymru, ardal a ystyrid ar y cyfan yn ddiffaith, heb unrhyw fioamrywiaeth. Ond roedd naturiaethwyr lleol yn gwybod yn amgenach, ond ofynnodd neb iddynt, ac ychydig a ymwelodd o'r tu allan: diystyriwyd yr ardal o ran gwerth bioamrywiaeth, lle i yrru o'i chwmpas, neu drwyddi'n gyflym oedd yr ardal. Yn y 1990au, paratowyd mapiau aml-liw Arolygu Cynefinoedd Cam 1 CCGC. Roedd y rhain yn agoriad llygad ond wrth weithredu camau petrus cyntaf y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, roedd disgwyliadau o safbwynt bioamrywiaeth yn isel. Cyfeiriwyd at fioamrywiaeth yn gyffredinol fel 'gallai fod yn unman'.

Heddiw mae gennym ddarlun llawer cliriach, mwy lliwgar a chyffrous o fioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol. Mae wedi bod yn broses raddol, araf, darniog, ac amyneddgar, ac efallai (o ganlyniad) yn 'gynaliadwy'. Mae'n seiliedig ar gofnodwyr lleol, adroddiadau lleol, gwybodaeth am geisiadau cynllunio, a data CCGC ac eraill. Gobeithio na fydd byth yn gyflawn, ac mae'r stori y gallwn ei hadrodd bellach yn perthyn yn gynyddol i RhCT ac nid 'unrhyw hen dir mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol'. Gallwn bellach siarad am nodweddion penodol lleol sy'n rhan o fioamrywiaeth gyfoethog y Fwrdeistref Sirol ac sy'n gwneud RhCT yn arbennig am ei resymau ei hun. Dros y blynyddoedd mae'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi annog, ymgysylltu, arsylwi, trafod, coladu a chasglu darnau o wybodaeth sydd wedi dod i'r fei a gallwn bellach siarad am y lle a'r lleoedd sydd yn rhan ohoni. Felly ymhlith prosiectau rheoli, gweithredu cynlluniau, digwyddiadau bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth a'r gweddill, y llwyddiant pennaf fu deall

bioamrywiaeth RhCT, ac mae'r ddealltwriaeth honno'n sail gynyddol i amcanion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r cyfleoedd y manteisir arnynt.

## Prif Siaradwr: Cadwraeth: Symud o Argyfwng i Gyfle: - Joe Zammit-Lucia

Wrth i ni barhau i wynebu amseroedd economaidd anodd a phroblemau cymdeithasol ehangach, mae perygl i faterion cadwraeth lithro'n is ar restr blaenoriaethau pobl. Sut mae creu gweledigaeth newydd sy'n gallu ysgogi pobl a chael cefnogaeth eang i'r agenda cadwraeth? Bydd y cyflwyniad hwn yn cyflwyno cynllun wyth pwynt ar gyfer creu gweledigaeth newydd o'r fath.

Prif neges: Mae angen i ni ofyn i'n hunain 'Sut ydym ni'n cyfathrebu?' Mae angen i ni fod yn eglur a defnyddio iaith hawdd ei deall.

Mae angen i ni ddefnyddio'r cyfleoedd sy'n codi ar adegau o galedi economaidd; a defnyddio'r cyfleoedd hyn i adeiladu dyfodol cryfach.

Mae angen i ni atgoffa ein hunain o'r holl bethau a gyflawnwyd hyd yma: y ffaith bod lefel ymwybyddiaeth amgylcheddol wedi codi'n sylweddol, y cynnydd arbennig o ran gwarchod rhywogaethau, cadwraeth ynni, buddsoddi mewn ynni gwyrdd ac ati. Mae'r holl bethau hyn a gyflawnwyd yn sylfaen gref i ni adeiladu arni. Rhaid i ni beidio â cholli golwg ar y 10 phrif beth sy'n bwysig i bobl. Mae angen i ni leisio ein pryderon yn synhwyrol ac ystyried pryderon sectorau ac unigolion eraill. Mae angen i ni siarad efo pobl mewn iaith addas a pheidio â dibynnu ar ein ffordd bresennol o ysgrifennu. Dylem geisio mynd ati'n raddol a chyson i ddenu diddordeb pobl yn eu hamgylchedd.

Sut mae dyfodol cynaliadwy'n edrych? Mae angen iddo edrych yn well na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Mae angen iddo fod yn bendant a chadarnhaol ac yn ddyfodol y mae pobl yn ei ddeisyfu.

Rhaid i brosiectau bob amser gynnwys pobl a buddion cadarnhaol. Rhoddodd Joe enghraifft o hyn trwy sôn am brosiect minc Sbaen. Elwodd y gymuned yn fawr ar y prosiect hwn er na chafodd ei hyrwyddo yn y ffordd hon. Yn hytrach, collwyd cyfle oherwydd i'r broses hyrwyddo ganolbwyntio ar fuddion i'r minc, rhywogaeth nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn y

gymuned erioed wedi ei weld na dod i gysylltiad â hi. Mae angen i bobl ddeall 'Beth sydd a wnelo hyn â fy mywyd i'.

Sut mae symud o weithredu yn y maes amgylcheddol i warchod yr amgylchedd? Allwn ni edrych trwy lygaid pobl ar yr amgylchedd? Beth ddylai Mesur Ynni ei gynnig i'n cymdeithas? Pa fanteision gwyrdd allwn ni eu sicrhau?
*Uncommon Ground: Rethinking the Human Place in Nature* gan William Cronon. Llyfr buddiol sy'n herio ambell fuwch gysegredig.

Yn olaf, ni allwn ddibynnu ar elusen i ariannu ein gwaith. Mae arian cyhoeddus yn bwysig ond ni allwn ddibynnu ar hwn chwaith. Mae angen cael ffynhonnell gynaliadwy trwy arian penodol, gan ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn, i bobl.

**'Bioamrywiaeth a Chymuned:- manteision lluosog trwy ymgysylltu â'r gymuned:- Alison Jones, Prif Ecolegydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Mae bwlch mawr rhwng canfyddiad y cyhoedd o fioamrywiaeth a'n barn ni ein hunain sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae pob un ohonom yn gwybod bod angen i ni sicrhau bod y gymuned leol yn gweithio gyda ni yn hytrach nag yn ein herbyn os ydym am lwyddo i warchod a rheoli ein bioamrywiaeth. Ond sut mae gwneud hynny? Wrth ymgysylltu â'r cyhoedd mae angen i ni feddwl y tu allan i'r bocs a sicrhau bod beth bynnag yr ydym yn ei wneud i warchod bioamrywiaeth hefyd o fudd i fywydau beunyddiol pobl leol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi rhoi cynnig ar bob math o ffyrdd i newid barn pobl am fioamrywiaeth, i feddwl yn gadarnhaol amdano yn hytrach na negyddol. Er bod gwaith yn dal ar y gweill rydym yn dechrau sylwi ar rai manteision.

**Adfer Ecosystem:- Profiadau o brosiect adfer mignen Covert Coch, gwarchodfa Ynys-hir RSPB – Ross Willis, RSPB Cymru**

Mae arwynebedd cyforgorsydd ar iseldiroedd yn y DU na fu unrhyw darfu helaeth arnynt wedi lleihau tua 94% o tua 95,000 hectar yn wreiddiol i tua 6,000 hectar erbyn heddiw.

Yng Ngheredigion mae tua dwy ran o dair o gyforgorsydd Cymru gan gynnwys y ddau safle mwyaf yng Nghymru, sef , Cors Fochno a Chors Caron, sy'n golygu bod cyfrifoldeb sylweddol

ar ysgwyddau'r sir hon i gyrraedd targed y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer y cynefin hwn.

Mae Covert Coch, sy'n rhan o warchodfa natur y RSPB yn Ynys-hir ar aber yr afon Dyfi, yn ddarn o dir o fu unwaith yn wlyptir helaeth ar hyd aber yr afon Dyfi. Cafodd ei ddraenio a phlannwyd conifferau yno tua diwedd y 19eg ganrif.
Ble bynnag nad oedd y conifferau'n tyfu, sefydlodd dryslwyn o rododendron wyllt o goetiroedd gerllaw lle'r oedd wedi ei blannu fel cysgod i fagu adar hela.

Tynnwyd ardal o Sbriws Sitka yn y 1970au, ac yn 1996, gyda chymorth grant gan y Comisiwn Coedwigaeth, dechreuwyd ar y broses o wella mynediad a chael gwared ar y rhododendron wyllt. Gyda grantiau eraill gan Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a CCGC bu modd parhau â'r gwaith tan 2006, pan aethpwyd ati, gyda chymorth grant gan Pheonix/CCGC, i gael gwared ar y blanhigfa gonwydd cyn mynd ati i reoli'r rhododendron yn derfynol.

Dechreuwyd rheoli lefel y dŵr trwy flocio'r ffosydd draenio mewnol er mwyn creu ardaloedd gorlifo lleol a gosodwyd dwy lifddor er mwyn cynnal lefelau dŵr uchel ar yr holl safle. Ar ôl clirio'r safle, roedd yn rhaid i'r fignen a dyfai gystadlu â'r prysgwydd goresgynnol cryf (coed bedw a helyg yn bennaf) ac eginblanhigion y Rhododendron wyllt.

Mewn ymateb, mae rhaglen chwynnu â llaw sylweddol a pharhaus wedi ei sefydlu ac mae nodweddion rheoli stoc wedi eu gosod er mwyn i ferlod mynydd Cymreig bori'r ardal yn ysgafn.

### '[Bioamrywiaeth ac Ecosystemau- wynebu'r her ]- Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru/Cyswllt Amgylchedd Cymru

Mae hwn yn gyfnod dynamig ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru gyda deddfwriaeth newydd, corff newydd a Chymru Fyw. Mae pob un ohonom wedi clywed am y dull gwasanaethau ecosystem ond beth yw ystyr hyn mewn gwirionedd? Ar ôl blwyddyn o drafod y Fframwaith Ecosystemau Newydd, ydym ni rywfaint yn nes at fyd delfrydol lle mae cymdeithas yn wir werthfawrogi bioamrywiaeth?

Mae'n ymddangos bod nifer o gwestiynau ac ansicrwydd, ond un peth a wyddom yw ein bod wedi methu â chyrraedd ein targedau ar gyfer bioamrywiaeth. Nid oes dim i'w ennill trwy feio rhywun eraill, felly'r unig opsiwn yw wynebu heriau newydd. Un o'r heriau hynny yw cydnabod ein lle mewn Cymru gynaliadwy lle mae'r amgylchedd, y gymdeithas a'r economi'n cael eu trin yn deg. Ond gyda'r gostyngiad yn ansawdd bioamrywiaeth, onid oes angen ffocws ychwanegol yn ein gwaith? Ynteu ai'r her wirioneddol i ni yw ymgymryd â newid diwylliannol i fod yn fwy ymwybodol o anghenion economaidd Cymru?

**Prif Sgwrs i Gloi:- Myfyrio ar fioamrywiaeth a'r hyn a gyflawnwyd o ran cadwraeth natur a'r heriau yn y dyfodol; - Morgan Parry, Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Myfyriodd Morgan ar ddau ddiwrnod y gynhadledd, ac yn fyr ar ddwy ddegawd o waith CCGC ym maes cadwraeth natur, gan leisio ei bryderon ar gyfer y dyfodol; o safbwynt pwysau busnes i ddadreoleiddio, a phetruster y cyhoedd ynglŷn ag ardaloedd dan warchodaeth, gan ddadlau y dylai'r un Corff Newydd fod yn fanteisiol i fioamrywiaeth yng Nghymru. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfleu'r cysylltiadau rhwng ecosystemau a bioamrywiaeth. Atgoffodd y gynulleidfa y gallai llawer o'n gwaith ganolbwyntio ar weithredu er mwyn adfer y gostyngiad yn ansawdd cynefinoedd, fydd yn galw am ddefnyddio nifer o ddulliau, a hynny efallai'n golygu datblygu ardaloedd newydd o dir gwyllt. Gofynnodd Morgan i'r gynulleidfa a oedd angen Strategaeth Fioamrywiaeth i roi sylw i'r materion hyn. Awgrymodd hefyd mai Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru oedd y fforwm ar gyfer trafod hyn.

Atgoffodd Morgan ni fod Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at ddatblygu cynaliadwy, fel 'yr egwyddor drefnu ganolog' ond gofynnodd tybed a yw'r Llywodraeth yn gwybod yn glir beth maen nhw'n ei olygu wrth ddweud hyn? A fyddan nhw'n dangos hyn trwy Raglen Cymru Fyw? Deilliodd Datblygu Cynaliadwy o'r ffaith nad oedd gwledydd sy'n datblygu'n gallu codi eu safonau oherwydd diffyg rheolaeth dros eu hadnoddau naturiol. Ceisiodd Morgan ein hannog i beidio â cholli golwg ar darddiad y cysyniad hwn.

Roedd Morgan o blaid arfer datblygu cynaliadwy ar draws bob sector. Ychwanegodd fel yr awgrymodd Richard Wakeford yn gynharach, y dylai Cymru efallai ystyried cyhoeddi ffigyrau blynyddol ar dwf Economaidd, Cymdeithas a Lles y pen.

Daeth â'r sgwrs i ben gydag apêl i weithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth ddweud yn fwy eglur SUT maen nhw'n meddwl y dylid gwarchod bioamrywiaeth: trwy gamau gan y Llywodraeth, trwy ddulliau'n seiliedig ar y farchnad, trwy ymdrech wirfoddol neu trwy ddatblygu ardaloedd newydd o dir gwyllt - yn syml, trwy adael llonydd iddynt.

## Sesiynau Gweithdy

**Cyflawni bioamrywiaeth yng Nghymru: ymateb i Fframwaith Gweithredu Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE Nod y gweithdy yw cyfarwyddo ymateb Cymru i dargedau bioamrywiaeth yr UE a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Hwylusydd**: **Llywodraeth Cymru**

**<u>Partneriaethau Bioamrywiaeth</u>**

<u>Mandad:</u>

Fforwm Bioamrywiaeth Cymru

- Oes gennym ni un?
- Os felly, pam nad ydym ni'n gwybod?
- Heb ei ymgorffori

Cysylltiadau rhwng aelodau'r bartneriaeth

- Ydyn nhw'n gweithio?
- Ydyn nhw'n bodoli?

<u>Cyfansoddiad:</u>

Sefydliad Anllywodraethol, ALl, Prifysgolion, gwirfoddolwyr, Cyrff Llywodraethol eraill, → angen cysylltiadau cryfach, mwy o gymorth a chyllid i sicrhau'r canlyniadau hynny

- Rhaid cael canlyniadau clir!
- Rhaid gallu adrodd arnynt/rhaid iddynt fod yn fesuradwy - ydi o'n gweithio?

<u>Allbwn:</u>

Atal colli amrywiaeth

- Angen mwy o £££, llai o strategaethau! Ariannu gwaith ar lawr gwlad.
- Sicrhau cysylltiad rhwng SB a deiliaid grantiau er mwyn gallu cyflawni

Strategaeth a'r Bwrdd

1. Angen strategaeth / cynllun gweithredu clir – camau gweithredu / anghenion

- At bwy y mae wedi'i hanelu?
- Sut mae adrodd ar fioamrywiaeth ar lefel leol?
- Bwrdd - Ymgysylltu / Cynrychiolaeth ar draws sectorau (yn benodol adrannau LlC)

2. Gwella cysylltiad ar lefel leol, genedlaethol, DU, UE

- Nod cyffredin y cytunir arno
- Mwy o awdurdod i sicrhau bioamrywiaeth ar lefel ALl
- Adrodd yn ofynnol

3. Angen cynllun gweithredu ariannol ochr yn ochr â strategaeth – amser-gyfyngedig

4. Cynllun Gweithredu ar lefel genedlaethol i lawr i lefel leol - gweledol

5. Dylanwadu ar ffactorau negyddol sydd wedi atal cynnydd ehangach

6. Gweithio'n ôl o 2050, 2020, i benderfynu pwy y mae angen dylanwadu arnynt ar hyd y ffordd

- Ffordd o gael gafael ar ffynonellau ariannu newydd

7. Strategaeth

- Targedau lefel uchel – sy'n berthnasol ar lefel leol
- Dangos sut y mae Bioamrywiaeth yn sicrhau targedau strategaethau eraill e.e. datblygu economaidd, lles
- Adolygiad blynyddol
- Nodi dangosyddion - lleol, rhanbarthol. LlC
- Rolau / cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir e.e. LlC, SB (craidd eu rhaglen waith), Cyrff Anllywodraethol, AlI

Integreiddio Bioamrywiaeth fel ei fod yn rhan o Bopeth (strategaethau, adrannau ac ati)

Peidio â chael gormod o grwpiau oherwydd gallu cyfyngedig.
Dim mwy o strategaethau oni bai eu bod yn werth eu cael.

Syniadau Cychwynnol

- Angen mwy o fanylder

- Pwy sy'n berchen ar ba elfennau?
- Oes angen Strategaeth Fioamrywiaeth arnom? Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn gweithio ar lawr gwlad. Angen adeiladu ar hyn.
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru?
- Byddai strategaeth yn helpu i flaenoriaethu a sicrhau cyd-destun / cael cefnogaeth y Gweinidog
- Beth am gynlluniau gweithredu o'r Strategaeth Amgylcheddol?
- Rhaid i'r strategaeth fod X Llywodraeth. Angen i fioamrywiaeth fod yn sail i Amaeth/Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr…
- Edrych ar strwythurau/mecanweithiau presennol. Materion gallu / adnoddau.
- Cael y bobl iawn ar y grwpiau iawn gydag awdurdod
- Dosbarthu rhestr o grwpiau i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gynnig sylwadau o ran bylchau
- Pam cael cynllun pryfed peillio ar wahân?
- Ar gyfer pwy/beth mae'r strategaeth wedi ei hanelu?

**Tir yng Nghymru: gwneud y defnydd gorau o'n hadnodd naturiol. Hwylusydd**: **Richard Wakeford**

GWELEDIGAETH – Cefn gwlad Amlswyddogaethol

- Cyfeiriodd RW at yr holl ddefnyddiau o'r tir a'r her sy'n ein hwynebu wrth ystyried sut i gydbwyso'r gystadleuaeth rhyngddynt, trwy ddefnyddio dulliau rheoleiddio'r llywodraeth a chynlluniau cymell
  - Biodanwyddau
  - Ynni Adnewyddadwy: gwynt a dŵr
  - Gwasanaethau diwylliannol a hamdden
  - Cynhyrchu bwyd
  - Coetiroedd

MATERION A NODWYD GAN GYNRYCHIOLWYR

- Perchnogaeth Tir
- Diogelwch Bwyd

DULLIAU

Pa ddulliau sydd ar gael i herio'r materion yma a chyflawni'r weledigaeth?

Wrth ymdrin â'r ddau fater yma, sef perchnogaeth tir a diogelwch bwyd, un dull posibl a drafodwyd oedd deddfwriaeth cynhyrchu gofynnol ar ôl prynu tir, neu o bosibl, gosod treth ar dir anghynhyrchiol ar sail y gwerth sydd iddo o ran cynhyrchiant amaethyddol neu fioamrywiaeth. Hefyd awgrymwyd Gorchmynion Prynu Gorfodol fel dull posibl i sicrhau cydbwysedd priodol o ran defnydd tir.

O safbwynt ymdrin â diogelwch bwyd yn unig, trafodwyd; cynlluniau cymell llysiau gardd preifat, cynlluniau rhannu elw i berchnogion tir preifat a chynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG). Gan fod nifer yn ymwneud â mudiadau ar lawr gwald, sut byddai Llywodraeth Cymru'n cefnogi cynlluniau fel

AGG o'r brig i lawr? Awgrymwyd na ddylai'r dull fod yn gefnogaeth ariannol, ond y dylid cefnogi cyrff cymunedol i sefydlu AGG.

Er gwaethaf y dulliau hyn, yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd yw man cychwyn cyn y gallwn benderfynu os a sut y gellir gwella'r defnydd o dir. Felly cyn mynd ati i amlinellu methodoleg i gyflawni'r nod neu'r weledigaeth a osodwyd, mae angen cael man cychwyn ystadegol neu brisio clir. Yr hyn sydd ei angen cyn unrhyw beth arall yw archwilio'r defnydd o dir. Mae angen cael tystiolaeth, er mwyn cynllunio pa ddulliau i'w defnyddio, i newid meddylfryd pobl a thrwy hynny newid y ffordd y mae tir yn cael ei ddefnyddio er gwell. Er enghraifft, ar hyn o bryd dim ond defnydd amaethyddol o dir a gofnodir gan ddata'r CYFRIFIAD presennol ac nid ei ddefnydd o ran bioamrywiaeth. Hyd nes gallwn ni gasglu set o ddata cyflawn ar gyfer defnydd tir yn cynnwys gwerthfawrogi gwasanaethau ecosystem fel bioamrywiaeth, i bob pwrpas, cynllunio yn y tywyllwch ydym ni, ac ni allwn ddisgwyl cydbwyso cefn gwlad amlswyddogaethol yn llwyddiannus.

Rhywbeth arall y mae angen ei ystyried yw i ba raddau y mae'r dulliau hyn yn dylanwadu ar newid mewn ymddygiad.

TRAFODAETH DDILYNOL

Ar ôl y gweithdy, oedd wedi dyfalu ynghylch y pwerau cryfach y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd, y daeth cyhoeddiad gan Lywodraeth yr Alban, a nodir trosodd:

Gallai mesur arfaethedig i roi mwy o rym i gymunedau'r Alban arwain at drosglwyddo'r grym mwyaf erioed ers datganoli.

Byddai'r Mesur Adnewyddu a Grymuso Cymunedol arfaethedig yn rhoi mwy o rym i gymunedau'r Alban.

Ar hyn o bryd mae'r ymgynghoriad esboniadol ar y Mesur, a drafodwyd ddoe yn Senedd yr Alban, yn gofyn am ymateb i nifer o syniadau a allai arwain at roi mwy o rym yn nwylo cymunedau:

- Hawl trefol i brynu – ymestyn yr hawl sy'n bodoli ar hyn o bryd i gymunedau gwledig brynu tir i gymunedau trefol.
- Hawl i gymryd drosodd dir ac adeiladau sector cyhoeddus nas defnyddir neu a danddefnyddir - naill ai'r hawl i ofyn am drosglwyddo tir/adeiladau, neu o bosibl hawl tybiadol i gymryd trosodd ased sector cyhoeddus pan ellir dangos nad yw'n cael ei ddefnyddio neu ei fod yn cael ei danddefnyddio ac nad yw perchennog yr ased yn gallu dangos cynlluniau ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol.
- Hawl i ddefnyddio a chael mynediad i dir nas defnyddir - os gellir dangos nas defnyddir tir, mewn perchnogaeth sector preifat neu gyhoeddus, neu ei fod yn cael ei danddefnyddio ac na all perchennog yr ased ddangos cynlluniau ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys "hawl cymunedol i dyfu", gan roi hawl i gymunedau gael mynediad i dir nas defnyddir a phlannu blodau, cnydau neu goed.
- Prynu gorfodol cymunedol - yn aml mae cymunedau'n nodi ardaloedd o dir neu adeilad yn eu hardal nas defnyddir ac sy'n achosi problemau ac y gellid eu defnyddio o'r newydd. Ar hyn o bryd mae gan awdurdodau lleol bwerau i brynu eiddo trwy orchymyn prynu gorfodol pe bai hynny o fudd y cyhoedd; gellid rhoi pwerau tebyg i gymunedau.
- Cynnwys cymunedau wrth ystyried y gyllideb - rhoi mwy o reolaeth uniongyrchol i gymunedau wrth benderfynu sut mae arian y sector cyhoeddus yn cael ei wario mewn ardaloedd lleol.

- Dyletswydd gyffredinol i ymgysylltu – yn lle'r dyletswyddau unigol i ymgysylltu â chymunedau sydd ar wahanol gyrff sector cyhoeddus, cael un ddyletswydd gyffredinol.

**Setiau Dysgu Gweithredol – sut gallan nhw helpu bioamrywiaeth?**
**Hwylusydd: Diana Reynolds Rhaglen Cymru Fyw, Llywodraeth Cymru**

Pethau yr ydym eisoes yn eu gwneud:
+ Mae pawb ohonom wedi ymrwymo i beidio â bod ar ein colled
+ mae nifer o brosiectau cadarnhaol yn cyfrannu at sicrhau buddion o ran bioamrywiaeth
+ rydym yn siarad efo'n gilydd ac yn gweithio gyda'n gilydd
Gwelliannau:
+ Darparu cyfleoedd i bobl - plant, rhieni ac oedolion eraill i archwilio/darganfod natur drostynt eu hunain
Gwneud yn wahanol:
+ Sicrhau nad rhywbeth atodol yw bioamrywiaeth ond yn hytrachm, yn rhan greiddiol o'r holl gurricula (fel yr amlinellir yn yr addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a strategaeth dinasyddiaeth fyd-eang)
+ Gwneud mwy o waith i bontio'r cenedlaethau
Un dymuniad gennym:
+ Canolbwyntio ar greu cynefinoedd - cynnal cynhadledd y flwyddyn nesaf yn gyfan gwbl ar bwnc creu/nodi dulliau i greu cynefin a sut i ddileu rhwystrau rhag creu cynefinoedd ar ein tir a thir nad oes gennym reolaeth arno (h.y. symud o fod ar ein colled i fod ar ein hennill)
Pethau y byddwn yn eu gwneud:
+ Annog Sean ynghylch: ein dymuniad a chynhadledd y flwyddyn nesaf
+ Annog Tracey i gynnal gweithdai gyda rheolwyr/perchnogion tir i helpu i ddeall y rhwystrau/cyfleoedd i gydweithio (cyfres lawn o sesiynau defnyddiol cyn y gynhadledd nesaf)
+ Cynnal o leiaf un gweithdy addas yng Nghymru y tro nesaf (Diana neu Alison)
+ Annog gweithdai go iawn (nid darlithoedd byr) sy'n rhoi cyfle i bobl siarad a gwrando
+Gofyn i Sean wahodd y Gweinidog dros Amaeth i'r gynhadledd y flwyddyn nesaf
+ Myfyrio ar ein gwaith bob dydd a gweithio'n ddyfal

**Sut ydym ni'n paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd yn y sector amgylchedd naturiol ynghyd â phwysau cystadleuol eraill? Hwylusydd: Lucy Corfield, Y Gangen Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru**

Gallai sychder cynyddol ac effeithiau eraill yn sgil newid hinsawdd gael effaith ddifrifol ar fioamrywiaeth a chynefinoedd pwysig, gan effeithio ar wasanaethau hanfodol y mae'r amgylchedd naturiol yn eu darparu i Gymru a'i phobl. Yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU, tynnwyd sylw at nifer o risgiau allweddol ar gyfer y sector amgylchedd naturiol. Mae Strategaeth Cymru ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd

Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod newid hinsawdd yn risg sylweddol i sectorau ar draws Cymru ac mae'n bwriadu meithrin gallu ac ymgorffori gwaith ymaddasu yn y sector trwy ddatblygu Cynlluniau Ymaddasu Sectoraidd. Pwrpas y gweithdy yw casglu sylwadau prif randdeiliaid ar sut y gallwn ni brif ffrydio gwaith ymaddasu yn Rhaglen Cymru Fyw Llywodraeth Cymru – trwy gyflawni swyddogaethau'r Corff Adnoddau Naturiol a gweithredu'r dull ecosystemau ar draws Llywodraeth. Bydd hyn yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r sector amgylchedd ehangach.

Nodau'r diwrnod
• Deall sut i wneud y sector amgylchedd naturiol yn fwy gwydn trwy Raglen Cymru Fyw.

**Strwythur y sesiwn**

Eitem: Wedi'i harwain gan

Croeso a chyflwyniadau: Lucy Corfield
Rhaglen Cymru Fyw a Newid Hinsawdd - Rhoddwyd cyflwyniad yn seiliedig ar Raglen Cymru Fyw a sut y gellir defnyddio newid hinsawdd fel sbardun ar gyfer y Rhaglen a sut mae angen ei ystyried hefyd fel risg i'r Rhaglen. Steve Spode
Effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol a'r ffordd ymlaen a awgrymir - rhoddwyd cyflwyniad yn amlinellu effeithiau newid hinsawdd gyda phrif negeseuon Rhagamcanion ar gyfer Hinsawdd y DU 2009. Yna adolygwyd canlyniadau newid hinsawdd ar y sector amgylchedd naturiol ac awgrymwyd ffordd ymlaen trwy ddefnyddio canllawiau Gwarchod Bioamrywiaeth mewn Hinsawdd sy'n Newid gan Defra. Rob McCall
Ymateb Polisi Llywodraeth Cymru – Rhoddwyd amlinelliad o sut y mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys gwybodaeth am y broses Cynllun Ymaddasu Sectoraidd a materion i'w hystyried wrth brif ffrydio gwaith ymaddasu. Lucy Corfield
Trafodaeth - Sut ydym ni am gynnwys gwaith ymaddasu'n rhan o Raglen Cymru Fyw?

Mewn grwpiau, ystyried sut i ymgorffori gwaith ymaddasu yn y sector amgylchedd naturiol.
Hwylusydd:Rob McCall
Scribe: Lucy Corfield

Materion a drafodwyd yn y gweithdy:

Sut ydym ni am gynnwys gwaith ymaddasu'n rhan o Raglen Cymru Fyw

• Mae problemau tymor byr ar gyfer delio â natur amrywiol tywydd eithafol, wrth i ni ddelio â newid hinsawdd yn y tymor hir
• Defnyddio cynlluniau iechyd cyhoeddus fel dŵr ac awyr lân

- Un agwedd allweddol o ymaddasu yw meithrin gwytnwch. Mae angen i ni sicrhau bod gennym systemau yn eu lle i wneud hynny
- Mae angen edrych ar ymaddasu'r amgylchedd naturiol ar gyfer rhywogaethau newydd sy'n dod iddo
- Mae angen i ni orfodi rhai newidiadau, a hynny nid ar gyfer yr amgylchedd yn unig ond ar gyfer gwareiddiad
- Edrych ar gynlluniau/systemau bridio
- Newid y cwestiwn o effeithiau i wytnwch
- Mae'n codi cwestiwn ynglŷn â chanolbwyntio ar un ardal, mae ymaddasu'n hanfodol i bopeth e.e. cymdeithas ddynol

Beth sydd eisoes yn cael ei wneud yn y sector amgylchedd naturiol ynglŷn ag effeithiau newid hinsawdd?

- Mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r RSPB eisoes yn gwneud gwaith yn gysylltiedig ag ymaddasu, bioamrywiaeth ac ati.

Beth yw'r rhwystrau rhag integreiddio gwaith ymaddasu â'r amgylchedd naturiol?

- Mae angen gweithio gyda ffermwyr gan fod ganddynt rôl fawr i'w chwarae ac maent yn rhan anhepgor ar gyfer y gwaith ymaddasu yn y sector amgylchedd naturiol.
- Nid yw'r drefn ar sail cymhelliant i ffermwyr yn addas ac mae angen edrych arni a'i newid i'w gwneud yn fwy addas.
- Bydd gwaith ymaddasu'n fwyfwy anodd gyda'r gofynion sydd ar y tir.

Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer integreiddio gwaith ymaddasu â'r amgylchedd naturiol?

- Mae cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill er mwyn cael buddion lluosog e.e. iechyd, llifogydd ac ati.
- Defnyddio adnoddau dŵr i gychwyn.
- Gellir edrych ar ddalgylchoedd afonydd, a'u glanhau. Bydd hyn yn golygu bod pawb ar ei ennill e.e. bioamrywiaeth, iechyd, llai o lifogydd ac ati.
- Mae angen edrych ar gysylltedd a bwrw ymlaen â hyn.
- Edrych ar dir preifat a sut y bydd hwn hefyd yn cael ei effeithio a sut y gellir ei ddefnyddio i helpu i ymaddasu e.e. efallai bydd ffermwyr mynydd eisiau edrych ar gostau yn sgil llifogydd.
- Gellir defnyddio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn llawn i atal ffermwyr rhag gweithio hyd at ymyl afonydd. Bydd hyn yn lleihau llygredd ac ati.
- Dangos i ffermwyr faint o arian y maent wedi bod yn ei wastraffu trwy ddefnyddio gwrtaith. Bydd hyn yn gwella'r amgylchedd naturiol ac yn lleihau costau i'r ffermwyr.
- Prif ffrydio gwaith ymaddasu i wasanaeth ymgynghori ffermwyr - newid y ffordd mae pobl yn cael eu cymell.

- Gofalu am ddŵr fel gwledydd eraill e.e. UDA a De Orllewin Lloegr
- Nodi effeithiau eilaidd.
- Bydd costau clirio tir amaethyddol yn arwain at gyfleoedd sylweddol i gwmnïau dŵr

**Gweithio gyda'n Gilydd' – heriau yn y dyfodol ar gyfer ein hamgylchedd dŵr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Hwylusydd Hwylusydd: Ceri Jones, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

**Cefndir**

Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn amlinellu'r dull strategol ar gyfer cyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer yr ail Gynlluniau Basnau Afonydd wedi dechrau gyda'r 'Ymgynghoriad Gweithio gyda'n gilydd'. Ni all yr un sefydliad wneud hyn ar ei ben ei hun. Mae gweithio ar draws sectorau a chyd-gyflawni mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn gwella a chynnal yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.

Beth yw ystyr Gweithio gyda'n Gilydd?

Rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol o gynnwys partneriaid yn effeithiol yn y gwaith o Gynllunio Basnau Afonydd wrth i sefydliad newydd gael ei greu yng Nghymru. Yn y gweithdy amlinellwyd y camau y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn eu cymryd i ddatblygu a gweithredu'r 2[il] Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i gefnogi'r ymgynghoriad ffurfiol ar 'Weithio gyda'n Gilydd', sy'n cael ei gynnal tan fis Rhagfyr 2012. Trafodwyd cwestiynau'r ymgynghoriad a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd ac ystyried ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Cyfranwyr**

| Enw | Sefydliad | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| Jim Davies | CGBLl Merthyr (gwirfoddolwr) | Ddim ar gael |
| Hilary Scott - Archer | Fforwm Mynediad APC Bannau Brycheiniog | hilaryscottarcher@hotmail.co.uk |
| Catherine Duigan | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | c.duigan@ccw.gov.uk |
| Kris Roberts | CBS Torfaen | kris.roberts@torfaen.gov.uk |
| Sorrel Jones | Ymddiriedolaeth | sjones@gwentwildlife.org |

| | | |
|---|---|---|
| | Bywyd Gwyllt Gwent | |
| Chris Matts | Coed Cadw | chrismatts@woodlandtrust.org.uk |
| Elen Richards | CBS Castell-nedd Port Talbot | |
| Helen Boulden | Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (IEEM) | helenboulden@ieem.net |
| John Clark | RSPB | John.Clark1@rspb.org.uk |
| Anna Browsden | Pond Conservation | |
| Richard Wistow | CBS Rhondda Cynon Taf | Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk |
| Ceri Jones | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Ceri.Jones@environment-agency.gov.uk |
| Kyle Young | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Kyle.Young@environment-agency.gov.uk |
| Rob Blacklidge | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Robert.Blacklidge@environment-agency.gov.uk |

**Allbynnau'r gweithdy – Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar gyfer ein 3 Chynllun Rheoli Basnau Afonydd.**

1. **Sut ydych chi'n meddwl y gall Asiantaeth yr Amgylchedd greu dull sy'n rhoi cyfle i bawb gyfrannu at y Cynllun Rheoli Basnau Afonydd?**

- Ar lefel strategol mae angen cynllun ymgysylltu i dargedu'r prif faterion fel rheolaeth tir.
- Trwy dargedu'r rhai sydd â rôl i sicrhau gwelliannau amgylcheddol.
- Mae angen cynnwys gwneuthurwyr penderfyniadau mewn sefydliadau oherwydd heb eu hymrwymiad hwy bydd yn anodd i eraill yn y sefydliad gyfrannu adnoddau.
- Defnyddio addysg i wella ymwybyddiaeth pobl o bwrpas Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a'r rôl y gallant ei gyfrannu, er enghraifft, ymgyrch y

Pysgodyn Melyn gan Cadw Cymru'n Daclus, gan ddefnyddio canolfannau addysg presennol fel canolfan Cwm Taf a'r Prifysgolion.
- Mae rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli y gellid eu defnyddio'n well. Byddai hyn yn osgoi dyblygu a 'gor-ymgysylltu'.

**2. Yn eich profiad chi, sut gallai'r Panel Cyswllt Ardal Basnau Afonydd fod yn fwy effeithiol ac effeithlon fel rhan o'r dull hwn?**

- Dim llawer o ymwybyddiaeth o'r Panelau Cyswllt. Sut maent yn cysylltu â grwpiau tebyg eraill? Awgrymwyd bod angen i'r panelau wella eu prosesau cyfathrebu fel bod sefydliadau a grwpiau eraill yn fwy ymwybodol ohonynt.
- Byddai cael diagram strwythuredig i esbonio eu rôl a'u cysylltiad â rhwydweithiau eraill yn fuddiol.

**3a. Yn eich barn chi, beth yw'r cryfderau a'r gwendidau'n gysylltiedig â gweithio ar raddfa dalgylch. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried ymatebion i'r cwestiwn hwn ochr yn ochr â gwerthusiad ffurfiol o'r peilotau dalgylch. Os oes gennych brofiad o'r peilotau dalgylch (y rhai gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill), neu weithio mewn dalgylchoedd yn gyffredinol, rhowch wybod i ni.**

- Mae angen i'r raddfa fod yn hyblyg fel ei bod yn addas i'r gynulleidfa fwriedig.
- Mae angen i'r Cynlluniau fod ar raddfa leol. Mae graddfa Basn Afon yn llawer rhy fawr. Mae angen i'r raddfa olygu rhywbeth i'r rhai yr ydych yn gweithio â hwy.
- Hefyd mae angen i'r raddfa fod yn berthnasol o safbwynt ecolegol.

**3b. Beth all Asiantaeth yr Amgylchedd ei wneud i roi gwell cefnogaeth i eraill wella'r amgylchedd dŵr?**

- Rhoi arweiniad clir ynglŷn â'r hyn sydd ei angen a chefnogi eraill i gael yr wybodaeth / adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae'r cipolwg o'r data a ddangoswyd cyn y sesiynau trafod yn ymddangos yn ffordd dda i fwrw ymlaen i gefnogi partneriaid.
- Ariannu'r gwaith o gyflawni. Yn benodol, sicrhau bod rhaglen ariannu hyblyg ar gael ar gyfer prosiectau adfer tymor hir.

4. **Sut ydych chi eisiau gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu cynlluniau rheoli basnau afonydd? Dylech gynnwys ar ba lefel yr hoffech weithio gyda'r Asiantaeth (cyfrannu, ymgynghori neu gydweithio i ddatys problemau) a pha ddulliau fyddai orau gennych.**

- Dylid sicrhau eich bod yn gweithio'n gydnaws â'r cynllun cyflawni ecosystemau ac yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol.
- Hefyd trwy gyfrwng cynllunio Awdurdodau Lleol trwy helpu ALl i ddeall eu cyfrifoldebau fel y gall y broses gynllunio gyd-fynd â'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

5. **Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau i gydlynu'r ymgynghoriad ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd a'r cynlluniau rheoli risg llifogydd?**

- Mae angen i'r dull hwn ystyried hefyd ddull gwasanaethau ecosystem

**Prif Negeseuon o'r gweithdy**

1. Sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gydnaws â'r dulliau presennol, yn arbennig gwasanaethau ecosystem.
2. Mae angen i raddfa'r Cynlluniau fod yn hyblyg; mae angen iddynt fod yn hygyrch ar lefel leol ac yn gydnaws â'r amgylchedd ecolegol.
3. Dylai'r dull gefnogi eraill trwy well cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth. Dylid sicrhau bod y dull data peilot yn cael ei hybu a'i fod ar gael.

**Camau Dilynol**

| Beth | Pwy sy'n arwain | Erbyn pryd |
|---|---|---|
| Adolygu'r adborth o sesiynau'r gweithdy a'i gynnwys yn yr Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer yr 2il Gynllun Rheoli Basnau Afonydd | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Rhagfyr 2012 (ymgynghoriad yn cau 22 Rhagfyr) |
| Gweithio gyda PBC i wella'r rhwydweithiau | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a | Rhagfyr 2012 |

| | | |
|---|---|---|
| rhwng Cynllunio Basnau Afonydd a PBC | PBC | |
| Gweithio gyda PBC i ystyried sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau ecosystemau'n gydnaws â chraidd y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd nesaf | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a PBC | Mawrth 2013 |

**SUT I FYND ATI I BRIF FFRYDIO CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL. Hwylusydd: LAURA PALMER MIEEM – ECOLOGYDD CYNGOR CAERDYDD**

Rhoddwyd cyflwyniad byr yn amlinellu'r gwaith treialu a wnaed hyd yma gyda Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) Caerdydd. Hyd yma nodwyd pedair elfen hanfodol ar gyfer CGBLl llwyddiannus. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain yn y cyflwyniad a phwrpas ymarferion y gweithdy oedd gweld sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'r elfennau hyn.

**CANLLAW CYNEFIN**

Nodwyd bod angen cael un pwynt cyfeirio ar gyfer disgrifiadau cynefin ac asesiad cyflwr er mwyn gweld y gwahaniaethau o ran gwybodaeth fotanegol a thechneg arolwg.

| Adnodd | Pwrpas |
|---|---|
| Taflenni cynefin | Un pwynt cyfeirio ar gyfer yr holl dechnegau arolwg a ddefnyddir yn eang |
| Hyfforddiant wedi'i deilwra | Annog grwpiau lleol i gofnodi rhywogaethau penodol er mwyn cynnal asesiad o'u cyflwr |

Casgliad - Teimlid bod cael un pwynt cyfeirio ar gyfer cynefinoedd yn gam cadarnhaol tuag at greu adnodd cyffredinol ar draws y bwrdd. Mae angen diffiniad safonol o 'gyflwr da'. Efallai bod angen mwy o wybodaeth e.e. cyflwr pridd. Bydd hyfforddiant ar gyfer grwpiau lleol wedi'i deilwra i'r grŵp dan sylw a bydd anghenion yn amrywio. Gallai'r rhwystrau gynnwys y pellter y bydd angen i wirfoddolwyr ei deithio, gwneir cryn ymdrech i hyfforddi pobl ond ychydig iawn sy'n manteisio arno, mae problemau mynediad at dir preifat, uwchdiroedd, ffermwyr ac ardaloedd llai poblog.

**GWIRFODDOLWYR**

Gwirfoddolwyr a grwpiau cadwraeth lleol yw asgwrn cefn cadwraeth yng Nghymru. Nodwyd bod angen eu defnyddio'n fwy effeithlon gan eu cefnogi a'u hannog.

| Adnodd | Pwrpas |
|---|---|
| Cyfarwyddiadau Photobucket | Cyfarwyddiadau wedi'u teilwra ar gyfer cadw ffotograffau . |
| Sgrinluniau BARS | Edrych ar sampl o'r system newydd |

Casgliad - Cynnwys gwirfoddolwyr trwy Hyrwyddwyr Cofnodi sy'n gyfrifol am gofnodi camau o fewn grŵp, yn cynnwys rhwydwaith Hyrwyddwr Cofnodi. Gosod targedau a chymell gwirfoddolwyr i uwchlwytho cofnodion e.e. cystadlaethau, gwobrau. Defnyddio astudiaethau achos i ddangos ble'r oedd data wedi gwneud gwahaniaeth (dweud wrth wirfoddolwyr). Cadarnhau systemau cofnodi - rhestrau penodol i'r sefydliad, iSpot, Canolfannau Adnoddau Dysgu, cronfa ddata Canlyniad 21.

Cynnwys gwirfoddolwyr yn y system BARS newydd. Dylid cydnabod/gwerthfawrogi eu cyfraniadau, mae hyfforddiant yn bwysig, ystyried y gallu i uwchlwytho camau ar sail ad hoc – heb gyswllt â sefydliadau. Datblygu app BARS i'w ddefnyddio allan. AIlfrandio BARS - ei wneud yn fwy hygyrch, newid y logo a'r rhyngwyneb.

## CASGLU GWYBODAETH

Rydym wedi galw erioed am fwy o wybodaeth gan ein grwpiau lleol. Gallai mabwysiadu dull mwy gweledol, ar raddfa tirwedd tuag at gamau CGBLl helpu i hwyluso'r broses o gasglu data.

| Adnodd | Pwrpas |
|---|---|
| Taflen gofnodi | Y ffordd hawsaf o gasglu gwybodaeth, gellir ei deilwra ar gyfer grwpiau sy'n gweithio ar un safle trwy gloi'r golofn lleoliad. |
| Sgrinluniau BARS | Edrych ar sampl o'r system newydd |

Casgliad – Ystyrid bod cael dull symlach, wedi'i deilwra o gasglu data yn syniad da, yn cynnwys uwchlwytho ffotograffau ar y rhyngrwyd i bwrpas adnabod, ynghyd â'r broses hawdd o drosglwyddo'r cofnodion i'r Canolfannau Adnoddau Dysgu, defnyddio technoleg a'r allbwn yn sgil cael gwell dealltwriaeth strategol o ecoleg. Teimlid bod angen cael set o ganllawiau eglur sy'n hawdd eu deall a rhoi nifer o opsiynau. Hefyd teimlid y byddai map o grwpiau cymunedol yn ddefnyddiol. Yn gyffredinol dylai hyn fod yn addas i ddull sy'n fwy seiliedig ar haenau – Rhywogaethau/cynefinoedd/ecosystemau - Polisi sefydliadau (NERC) ac ati

Teimlid y dylid rhoi lle canolog i'r dull ecosystem, yn cynnwys mapio seilwaith gwyrdd sydd wedi'i gynnwys yn BARS. Hefyd nodwyd bod angen i BARS fod yn

hollol barod i'w ddefnyddio a rhaid ystyried gwahaniaethau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

## CGBLl STRATEGOL

Mae'n dod yn fwyfwy hawdd cael mynediad at systemau mapio a'u defnyddio, ac maent yn ddatganiad mwy amlwg a dibynadwy na rhestr o gamau. Mae CGBLl Caerdydd yn bwriadu creu mapiau coridor strategol ac uno'r rhain â'r system BARS newydd.

| Adnodd | Pwrpas |
|---|---|
| Mapiau coridor cynefin | Meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn ôl y math o gamau sydd ar gael fel mapiau |
| Mapiau BARS uchelgeisiol | Meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt sydd wedi eu mapio ar BARS fel camau uchelgeisiol. |

Casgliad - Teimlid bod mapio coridor yn ddull effeithiol o helpu CGBLl ond ni ddylent gymryd ei le. Gellid eu defnyddio i gysylltu â buddion eraill ar gyfer pobl - ysbrydol, gwasanaethau ecosystem ac ati. Gallai'r CGBLl fod yn llawer symlach a dylid eu defnyddio i roi'r mapiau mewn cyd-destun. Mae angen gosod y rhain dros y mapiau gwasanaeth ecosystem. Byddai'n ddefnyddiol mapio ble mae'r gwirfoddolwyr. Gofynnwyd y cwestiwn a allai'r mapiau fod yn becyn cymorth i gefnogi BARS?

Trwy fapio'r coridor fel ardaloedd uchelgeisiol ar BARS teimlai'r grŵp y gallai hyn helpu i gysylltu â buddion eraill, byddai hefyd yn caniatáu iddynt gael eu defnyddio fel dull cynllunio, fyddai'n golygu na fyddai angen cynnal arolwg mewn rhai achosion a gallai gynorthwyo'r gwaith. Fodd bynnag, nid yw pawb yn deall mapiau a byddai'r defnydd ohonynt mewn ardaloedd mwy gwledig yn gyfyngedig.
Mewn ymateb i'r cwestiwn a all BARS gyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ledled Cymru, gofynnodd y grwpiau a fyddai modd ei wneud yn haws i'r cyhoedd ei ddefnyddio, ydi'r broses adrodd yn ddigonol ac a oes modd dangos y mapiau uchelgeisiol.

## SYMUD YMLAEN

Pwrpas y gweithdy hwn oedd sicrhau bod y gwaith presennol ar y trywydd iawn. Gydag ambell fân newid, bydd Cynllun Peilot CGBLl Caerdydd yn datblygu'r prosiectau arfaethedig gan roi blaenoriaeth i'r canlynol:

- Ailddrafftio Canllawiau Safleoedd Lleol - i'w gyflwyno i Grŵp Llywio'r BPC yn Chwefror
- Parhau i ddatblygu'r hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r BARS newydd (trwy'r wlad)

- Gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau sy'n gysylltiedig â phartneriaethau CGBLl i gasglu gwybodaeth yn cynnwys datblygu dulliau lleol ar gyfer casglu data biolegol a chofnodi camau trwy BARS
- Creu fersiwn gofodol o CGBLl Caerdydd i arddangos sut y gellir defnyddio ardaloedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt i ganolbwyntio adnoddau arnynt

Cynnwys gwasanaethau ecosystem unwaith y byddwn wedi cael diffiniadau o'r rhain.

**Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth - Creu gweledigaethau newydd i wneud eich prosiectau'n fwy effeithiol. Hwylusydd: Joe Zammit-Lucia**

Cynhaliwyd trafodaeth grŵp a chodwyd nifer o gwestiynau:
Allwch chi aralleirio pob un o deitlau eich prosiectau gan roi lle canolog i bobl. Os na allwch, a ddylem ni ail-feddwl ynglŷn â'n prosiectau?
Sut mae sicrhau bod yr Amgylchedd ar restr y 10 prif bwnc y mae pobl yn poeni amdanynt. Efallai bod yn rhaid i ni ei gysylltu â materion eraill, fel yr economi.
Sut allwn ni ennyn brwdfrydedd y cyhoedd, gan adeiladu ar yr hyn y maen nhw eisiau, eu hamcanion a chael pobl i ddod i gysylltiad eto â chefn gwlad.
Defnyddio celf, llenyddiaeth, maen nhw'n fwy pwerus na gwyddoniaeth.
Mae gan bobl ddarlun rhy negyddol o gadwraethwyr, mae wedi cael ei brofi bod neges negyddol yn gwneud i bobl golli diddordeb.

Gofynnodd y cwestiwn, pam achub rhywogaethau prin? Os na allwn ni esbonio ein rhesymeg i bobl mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr, mae'n dod yn debycach i grefydd - 'am fod rhaid', sy'n gwneud i bobl golli diddordeb.
Stori sydd o ddiddordeb i bobl – sicrhau hynny; hyd yn oed os nad ydych yn meddwl y bydd yna ddiddordeb, fe fydd yna.
Enghreifftiau o lwyddiannau pendant a roddwyd gan rai a fu mewn gweithdai, gan ddefnyddio'r dull hwn:
1. 'Gŵyl Syniadau' – pitsa am ddim am syniadau; denu pobl gydag ysbrydoliaeth o rywle arall.
2. Gerddi amlddiwylliannol – blasu llysiau anghyffredin a sesiynau coginio, planhigion meddyginiaethol a defnyddiau traddodiadol, llên gwerin, ryseitiau, iaith
3. Mae infertebratau yn ogystal â phobl yn elwa ar erddi meddyginiaethol - e.e. Gardd Feddyginiaethol Llysfaen - Llwybr Prosiectau Cynaliadwy
4. Tanc Morol – enghraifft Martin Evans
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Allem ni gael tudalen 'Prosiectau Pobl' ar ein gwefan lle byddai'n bosibl rhoi cysylltau/paragraff byr, arweinyddion prosiectau?
Gwefan Place Station http://www.theplacestation.org.uk/about
Sut y mae hyn o fudd i mi? Mae pobl eisiau ac angen gwybod hyn. Dylech gofio hyn a'i gynnwys wrth gynllunio a dehongli
"Fe roddwn ni gynnig arno. Os nad ydym ni'n ei hoffi, fe'i newidiwn yn ôl fel yr oedd cynt.' Rhowch hyder i bobl wneud newidiadau gydag opsiwn o fynd yn ôl i gam blaenorol os nad ydynt yn ei hoffi.
2013 Blwyddyn Ryngwladol Buddion Lluosog Cydweithredol - Ruth Lovell, Sefydliad Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy LovellRE@cardiff.ac.uk

**Ffridd – ei phwysigrwydd a'i natur fregus. Hwylusydd: Clare Burrows**

**Cefndir**

Mewn sawl rhan o Gymru mae parth trosiannol arbennig ar ran isaf bryniau lle mae'r rhostir yn troi'n ffermdir isel, ffrwythlon. Yn aml cyfeirir at yr uwchdir ymylol hwn fel ffridd (neu coedcae) yng Nghymru, ac mae nodweddion cynefin ffriddoedd yn wahanol iawn naill ai i uwchdiroedd neu iseldiroedd. Eto i gyd ychydig iawn o sylw o ran cadwraeth sydd wedi'i roi i'r parth hwn; mae'r holl arolygon cynefin a rhywogaethau a dynodiadau statudol yn tueddu i ganolbwyntio naill ai ar uwchdiroedd neu iseldiroedd, gydag ychydig iawn o sylw i'r ardal rhwng y ddau. Mae ymchwil diweddar ar gasgliadau o adar y ffriddoedd, dadansoddiad gofodol o ddata Cymru gyfan a bygythiad posibl newydd wedi codi proffil y ffridd. Mae pwysigrwydd y ffridd yn cael ei gwerthfawrogi'n gynyddol. Yn y gweithdy hwn, ystyriwyd pa mor gadarn yw'r achos dros gynnig ffridd fel cynefin adran 42; gan ystyried diffiniad, pwysigrwydd a natur fregus y ffridd.

**Cyfranwyr**

Cymerodd 13 o gynrychiolwyr o lywodraeth leol, cyrff sector statudol a gwirfoddol ran yn y gweithdy.

**Canlyniadau'r Gweithdy –**

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

1. ***Beth yw delwedd pawb o ffridd ac a allwn ni ddod i gonsensws ynglŷn â diffiniad?***

    - Cytunwyd nad oedd uchder yn fesur defnyddiol.
    - Roedd pawb yn cytuno nad oedd cyfansoddiad llystyfiant yn elfen bwysig.
    - Roedd mwyafrif y cyfranwyr yn credu y dylid cynnwys brithweithiau llystyfiant mewn diffiniad.
    - Roedd mwyafrif y cyfranwyr yn credu y dylid cyfyngu ffridd i dir o dan derfyn uchaf tir caeedig, ond roedd cyfranwyr eraill yn anghytuno â hyn. Gallai hyn ddibynnu ar amrywiad daearyddol. Teimlai un cyfrannwr pe bai'r diffiniad yn cael ei ymestyn yn uwch na therfyn uchaf tir caeedig, na fyddai'r term ffridd yn briodol gan fod iddo ystyr penodol i berchnogion tir.
    - Trafodwyd pwysigrwydd llethr. Mewn rhai ardaloedd mae ffridd wedi ei chyfyngu i lethrau serth ond mewn eraill mae ar dir cymharol wastad.

***2. Ydi ffridd yn ddigon pwysig ac arbennig i gyfiawnhau ei hychwanegu at restr adran 42?***

Yn ogystal â'r meysydd pwysigrwydd y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniad, teimlai'r cyfranwyr bod ffriddoedd yn bwysig fel:

- Lloches i gynefinoedd a rhywogaethau'r iseldir
- Tirweddau heb eu darnio sy'n cynnwys y blociau unigol, parhaus a mwyaf o gynefin lled-naturiol yr iseldir
- Rhwydweithiau cynefin, sy'n cyfrannu'n sylweddol at gysylltedd yn y dirwedd
- Meysydd ar gyfer mynediad a hamdden
- Cyflenwi gwasanaethau ecosystem - dŵr glân, lliniaru llifogydd, storio carbon
- Elfen weledol ddeniadol yn y dirwedd
- Rhesymau diwylliannol

***3. Ydi'r ffridd dan fygythiad ac a oes angen ei diogelu rywsut?***

Teimlid bod bygythiadau yn deillio o:

- Ddwysâd
- Cefnu arni
- Newid arferion rheoli
- Plannu coed
- Ffermydd gwynt

***4. Ydych chi'n cytuno i fwrw ymlaen â chynnig i ychwanegu ffridd at restr adran 42?***

Roedd yr holl gyfranwyr at ei gilydd yn cytuno y dylid bwrw ymlaen â chynnig i ychwanegu ffridd at restr adran 42. Roeddent yn teimlo mai ychydig iawn o fesurau oedd ar gael i'w diogelu ar hyn o bryd oherwydd bod cynefinodd adran 42 yn aml mewn ardaloedd bach o fewn brithweithiau mawr sy'n ei gwneud yn anodd cyflwyno achos dros eu pwysigrwydd. Er bod rhedyn yn elfen bwysig iawn, ar hyn o bryd nid yw'n cael ei ddiogelu.

**Prif negeseuon o'r gweithdy**

4. Teimlai pawb fod ffridd yn gynefin pwysig a bod y gydnabyddiaeth a'r mesurau diogelu ar ei chyfer ar hyn o bryd yn annigonol.
5. Bydd angen gwneud gwaith pellach cyn y gellir diffinio ffridd yn fanwl, a'i mapio hi.
6. Mae prinder gwybodaeth am y rhywogaethau mewn ffriddoedd a'u gofynion o ran cynefin.

7. Ar hyn o bryd mae nifer o fygythiadau i ffridd, a allai yn rhannol, gael eu lliniaru trwy statws 42 a fyddai'n codi ei hymwybyddiaeth ac yn sicrhau ei bod yn cael ei diogelu'n well.

**Camau dilynol**

| **Beth** | **Pwy sy'n arwain** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|
| Trefnu cyfarfod gyda phrif randdeiliaid oedd yn absennol yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i drafod cynnig ffridd fel cynefin Adran 42 | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Hydref 2012 |
| Defnyddio'r adborth o'r sesiwn gweithdy a'r cyfarfod dilynol i ysgrifennu papur ar gyfer Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gynnig ffridd fel cynefin adran 42 | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Hydref 2012 |
| Cyflwyno'r cynnig i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r RSPB | Tachwedd 2012 |
| Bydd camau pellach yn dibynnu ar benderfyniad Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru | | |

**Infertebratau mewn ardaloedd trefol: Cynlluniau a blaenoriaethau Buglife. Hwylusydd: Craig MacAdam, Clare Dinham, Buglife**

Buglife – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Infertebratau yw'r unig sefydliad yn Ewrop sydd wedi ei neilltuo i warchod yr holl infertebratau: o wenyn i chwilod, a phryfed cop i falwod. Buglife oedd un o'r sefydliadau cadwraeth cyntaf i dynnu sylw at golledion parhaus cynefinoedd safleoedd tir llwyd – a chanlyniadau difrifol hyn i fioamrywiaeth – ac mae wedi bod yn gweithio i warchod bywyd gwyllt ar safleoedd tir llwyd ers 2004.
Rhoddodd Craig McAdam a Clare Dinham gyflwyniad ar waith presennol Buglife ar safleoedd tir llwyd; parciau trefol a thoeau gwyrdd a phrosiect Cerrig Camu Gorllewin Morgannwg.
Dyma amlinelliad byr o'r sgwrs:

Cyflwyniad i Buglife
Pam fod infertebratau'n bwysig
Eiriolaeth – lobïo'r senedd, ymgyrchu
Gwaith ar rywogaethau gwarchodedig
Gwaith ar rywogaethau gwarchodedig, cadwraeth ymarferol, prosiectau ar raddfa tirwedd fel prosiectau Cerrig Camu Tir Llwyd Buglife, prosiectau peillio fel Blines, ymchwil ac adrodd, gwaith estyn allan i ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli'r cyhoedd, gweithdai rhywogaethau a thaflenni cyngor.

**Prosiect Cerrig Camu Gorllewin Morgannwg**
<u>Prif nodau, dulliau a chanlyniadau</u>

Coladu data bioamrywiaeth ar gyfer y 5 safle sy'n rhan o'r prosiect gan gynnwys infertebratau, ymlusgiaid a fflora
Adfer/gwella 48 hectar o Gynefin Brithwaith Agored
Dod â thua 100 hectar o Gynefin Brithwaith Agored dan reolaeth ffafriol
<u>Rheoli Cynefin:</u>
Dewis darnau o brysgwydd i'w clirio er mwyn hybu porfa a rhostir blodeuog
Creu pyllau bas ar dir llwm a chynefin i wenyn
Creu porfa flodeuog
Creu tomenni cynefin/gaeafle

Rheoli fflora ymledol nad yw'n frodorol lle y bo'n briodol ac ymarferol
Monitro bioamrywiaeth gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae cynefin wedi ei greu/adfer
Mapio safleoedd - rhestru safleoedd yn Abertawe/Castell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys Cynefin y Rhoddir Blaenoriaeth iddo o ran Cynefin ar Dir a Ddatblygwyd o'r blaen yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.
Gweithdy arfer da ar safleoedd tir llwyd wedi ei anelu at gynllunwyr, rheolwyr tir, ecolegwyr,ymgynghorwyr ac ati.
Estyn allan a chodi ymwybyddiaeth - Bioblitz', sefydlu grwpiau gwirfoddolwyr, hyfforddi, teithiau bywyd gwyllt, gweithdai adnabod chwilod/ymlusgiaid, dal gwyfynod
Partneriaid prosiect - Tata Steel Port Talbot, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe.
Partneriaeth ychwanegol – Bumblebee Conservation, Amphibian and Reptile Conservation, Prifysgol Abertawe.
Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan WREN

**<u>Trafodaethau</u>**

**Pa gyfleoedd sydd yna i warchod infertebratau yng Nghymru?**
**Ble fydd y cyfleoedd mwyaf?**
Gwaith ar rywogaethau/cynefin
Gwarchod cynefinoedd i bobl a bywyd gwyllt
Rheoli'r wasg mewn ffordd integredig yng Nghymru

Creu cysylltiadau gyda grwpiau fel archaeolegwyr diwydiannol

**Beth yw'r rhwystrau rhag gwarchod infertebratau yng Nghymru?**
Lleisiwyd pryderon ynglŷn â lefelau diddordeb mewn infertebratau, a'u cadwraeth.
Ystyrid bod angen cael mwy o wybodaeth ar gyfer rhai grwpiau er mwyn deall eu hecoleg a sut i reoli safleoedd yn briodol.
Codwyd y mater o ganfyddiad pobl o 'chwilod'. Mae hyn yn deillio'n bennaf o ddiffyg dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r rôl bwysig sydd gan infertebratau yn nhermau gwasanaethau ecosystem fel peillio. Mae addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ffordd bwysig o gywiro hyn.
Mae data sylfaenol yn brin ar gyfer nifer o safleoedd. Heb yr wybodaeth hon mae'n anodd gwybod pa safleoedd i'w gwarchod - yn ôl y rhai sy'n rheoli safleoedd mae rhai problemau'n gysylltiedig ag infertebratau oherwydd diffyg data sylfaenol. Hefyd roedd pryder ynglŷn â 'ble i ddechrau' gan fod cynifer o rywogaethau. Roedd adnoddau hefyd yn broblem yn arbennig mewn Awdurdodau Lleol - o ble y daw'r arian i dalu am waith arolwg/beth ddylem ni ei arolygu?
Mae angen gwella cysylltiadau o fewn Awdurdodau Lleol

Mae prosiectau B-lines a Buzzing gan Buglife yn ffordd o gynyddu adnoddau peillio i infertebratau, creu perthynas gadarnhaol gyda pherchnogion tir ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mynegwyd diddordeb yn y mathau hyn o brosiectau ac mae gwybodaeth wedi ei darparu ar gyfer cynrychiolwyr; parciau trefol yw ffocws prosiectau 'Buzzing'.
Mae Cynllun Peillio Cymru'n cael ei lansio yng ngwanwyn 2013, a bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gweithdy cyn ei ryddhau.

**Safleoedd tir llwyd**
Mae gan Gymru nifer o safleoedd tir llwyd yn cynnwys gwastraff o'r diwydiant glo a llechi a chyn waith mwyndoddi metelau trymion. Mae nifer o safleoedd tir llwyd yn eiddo i Awdurdodau Lleol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol. Ystyriwyd adfer safleoedd, h.y. gosod haen o uwchbridd a phlannu coed ar wastraff o byllau glo i bwrpas anesthetig yn hytrach na gadael i natur gymryd yr ardal drosodd.
Ar ôl Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru, aeth Clare Dinham i Drwyn y Rhws, gydag Erica Dixon, ecolegydd ym Mro Morgannwg. Mae'r hen chwarel hon yn enghraifft ragorol o safle tir llwyd y gallai bywyd gwyllt a phobl elwa arni.

**Ymateb i effeithiau pathogenau *Phytophthora* ar goedwigoedd a chynefinoedd eraill: Comisiwn Coedwigaeth Cymru, FERA, Commons Vision. Hwylusydd: Chris Tucker, Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

Ysgrifennu am y gweithdai i ddilyn